**Polisi Codi Arian Moesegol**

AMGUEDDFA CYMRU

## 1. Cyffredinol

Pwrpas gweithgarwch gweithredol Amgueddfa Cymru, gan gynnwys codi arian, yw cyflawni'r dyletswyddau statudol a nodir yn y Siarter Frenhinol a sicrhau bod Strategaeth 2030 yn cael ei chyflawni, yn enwedig yr ymrwymiadau i:

- Sicrhau bod pawb yn cael ei gynrychioli
- Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes
- Helpu i ddiogelu ac adfer natur a'r amgylchedd
- Cefnogi lles drwy ofodau a phrofiadau ysbrydoledig
- Darganfod ac archwilio'n ddigidol
- Adeiladu cysylltiadau byd-eang

Mae'n rhaid i weithgareddau codi arian helpu, a pheidio â rhwystro Amgueddfa Cymru rhag cyflawni'r amcanion hyn. Bydd ffynonellau codi arian unigol yn cael eu hystyried fesul achos yn erbyn y polisi hwn ac ni fydd staff Datblygu sydd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol codi arian yn eu targedau asesu blynyddol yn cymryd rhan yn y penderfyniadau hyn.

## 2. Sefyllfa gyfreithiol a safonau proffesiynol

Mae nawdd yn cynnwys darpariaeth fasnachol o wasanaethau, sy'n ddarostyngedig i TAW, lle mae'r noddwr yn derbyn buddion i werth mesuradwy yn gyfnewid am hynny.

Nid yw rhoddion yn denu unrhyw fuddion materol a gall gynnwys darparu arian, cyfranddaliadau, rhoddion mewn nwyddau ac anrhegion go iawn (yn amodol ar gydymffurfio â Strategaeth Datblygu'r Casgliad Amgueddfa Cymru).

Mae dulliau codi arian cyfrifol Amgueddfa Cymru yn dod o dan gyfraith y DU yn bennaf. Y safonau proffesiynol eraill a ddilynir yw'r codau a osodwyd gan y Comisiwn Elusennau, Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn ei *Chod Moeseg ar gyfer Amgueddfeydd*, y Sefydliad Codi Arian yn ei *God Ymarfer ar gyfer Codi Arian*, a'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn ei *God Ymarfer ar gyfer Codi Arian.* Mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw am benderfyniadau ynghylch derbyn rhoddion yn nwylo Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Elusen. Mae'r Ymddiriedolwyr yn arfer y cyfrifoldeb hwnnw drwy ddirprwyo'r rhan fwyaf o benderfyniadau i aelodau staff, yn unol â'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Bydd Amgueddfa Cymru yn sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau codi arian yn ymwybodol o'r codau a'r safonau proffesiynol ac yn cadw at eu hegwyddorion.

Mae'n rhaid i Amgueddfa Cymru dderbyn rhoddion sy'n helpu i gyflawni ei

hamcanion elusennol oni bai y byddai gwneud hynny yn achosi niwed i genhadaeth y sefydliad. Bydd amgylchiadau sy'n gyfystyr â digwyddiad difrifol lle nad ydynt yn siŵr a fyddai derbyn rhodd er budd Amgueddfa Cymru yn cael eu cyfeirio gan yr Ymddiriedolwyr at Gomisiwn Elusennau'r DU.

Ni fydd Amgueddfa Cymru yn ceisio neu'n derbyn arian o ffynonellau sy'n anghyfreithlon neu sy'n cael eu cynhyrchu gan weithgareddau anghyfreithlon, yn analluogi, yn creu niwed i enw da'r sefydliad neu lle mae amodau afresymol yn gysylltiedig â'r rhodd. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol yn achos derbyn rhoddion i'r Casgliad ac ar gyfer caffael gwasanaethau i Amgueddfa Cymru (gweler hefyd y Polisi Caffael a Strategaeth Datblygu'r Casgliad).

3. **Gwerthoedd ac enw da**

Ni fydd arian yn cael ei geisio na'i dderbyn o ffynonellau y mae eu dulliau gweithredu yn mynd yn groes i genhadaeth a gwerthoedd Amgueddfa Cymru, neu y byddai eu derbyn yn peryglu enw da Amgueddfa Cymru.

Dylai staff neu gynrychiolwyr sy'n ceisio codi arian ystyried yr effaith bosibl ar weledigaeth, amcanion ac enw da Amgueddfa Cymru. Os rhagwelir unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro moesegol, dylid ei drafod gyda'r adran Datblygu yn y lle cyntaf a dilyn y broses adolygu diwydrwydd dyladwy a nodir yn Atodiad 1.

4. **Y gallu i gyflawni amcanion**

Efallai y bydd rhai ffynonellau cyllid yn mynnu bod gwaith neu brojectau yn cael eu cyflawni mewn ffordd benodol, gan gynnwys drwy bartneriaethau gyda sefydliadau eraill. Os bydd hyn yn cyfaddawdu gallu Amgueddfa Cymru i gyflawni ei hamcanion ei hun, ni fydd cyllid yn cael ei dderbyn.

5. **Tryloywder ac arferion gorau**

Ni fydd arian yn cael ei geisio na'i dderbyn pan fyddai ei dderbyn yn cyfaddawdu gallu Amgueddfa Cymru i weithredu mewn modd tryloyw. Mae'n ofyniad bod yr Ymddiriedolwyr yn gwybod beth yw hunaniaeth gyfreithiol pob rhoddwr; felly, ni fydd Amgueddfa Cymru yn ceisio nac yn derbyn arian gan unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd, drwy weithredu drwy drydydd parti, yn gofyn am gael parhau'n anhysbys, oni bai bod hynny drwy elusen achrededig. Ni fydd Amgueddfa Cymru yn derbyn rhoddion a gynigir mewn arian parod sydd dros £1,000. Bydd Amgueddfa Cymru hefyd yn sicrhau bod pob perthynas rhwng cyllidwyr gwirioneddol a darpar gyllidwyr, eu teulu agos a'u staff, a'r staff ac Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru, yn cael eu rheoli'n briodol o dan bolisïau Adnoddau Dynol yr amgueddfa.

6. **Y broses ystyried**

Os oes unrhyw aelod o staff neu wirfoddolwr yn poeni am wrthdaro buddiannau gyda'r polisi hwn, dylid codi hyn gyda'r adran Datblygu. Dylid cofnodi a ffeilio'r sylw, hyd yn oed os penderfynir bwrw ymlaen â'r drafodaeth gyda'r cyllidwr.

Os yw'r adran Datblygu yn teimlo bod angen datrys mater moesegol, ymdrinnir yr ystyriaethau yn fewnol gan y Cyfarwyddwr Datblygu Busnes a'r Uwch Dîm Gweithredol ar ran y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Fel y bo'n briodol, gellir cyfeirio hyn wedyn at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i gael eu harweiniad.

Cytunwyd yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar

Dyddiad: 23 Mawrth 2023

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu bob pum mlynedd o'r dyddiad y daw i rym, neu'n gynt os yw'n briodol i sicrhau bod y trefniadau a roddir ar waith yn briodol i ofynion gweithredu Amgueddfa Cymru.